Beibl i Blant
yn cyflwyno

Teithiau Rhyfeddol Paul



Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Janie Forest

addaswyd gan: Ruth Klassen
Alastair Paterson
Cyfieithydd: Catrin Roberts

Cynhyrchwyd gan: Bible for Children
www.M1914.org

©2021 Bible for Children, Inc.
Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Roedd Paul a Silas, gweision Iesu, yn y carchar. Na, doedden nhw ddim wedi gwneud unrhyw beth o'i le – roedden nhw wedi gwneud i ysbryd drwg ...

... oedd mewn dynes ddod allan ohoni. Fe wnaethon nhw ddangos pŵer y gwir Dduw a'i Fab Iesu i'r bobl yn Philippi oedd yn addoli eilun-dduwiau.



Cawson nhw eu arestio, eu chwipio a'u cloi mewn cell am wneud hynny.



Byddech chi'n disgwyl i Paul a Silas fod yn flin a chwerw am hyn. Ond doedden nhw ddim.

A dweud y gwir, am hanner nos dyma nhw'n dechrau canu emynau yn moli Duw!


Roedd pob
carcharor
arall a
swyddog
y carchar yn
eu clywed.

Yn sydyn, stopiodd y canu. Anfonodd Duw DDAEARGRYN i ysgwyd y carchar. Agorodd y drysau i gyd. Dyma'r cadwyni yn disgyn i ffwrdd oddi ar pawb.



O diar! Roedd swyddog y carchar yn siŵr fod pob un o'r carcharorion wedi dianc. Byddai'n cael ei gosbi hyd yn oed petai dim ond un carcharor wedi dianc.

Cydiodd y swyddog yn drist yn ei gleddyf. Roedd am ladd ei hun.

Ond gweiddodd Paul, "Paid, dyn ni i gyd yma!" Pan welodd y swyddog fod hynny'n wir, dywedodd, "Beth sydd raid i mi ei wneud i gael fy achub?"

Dyma nhw'n ateb, "Credu yn yr Arglwydd Iesu, dyna sut mae cael dy achub – ti a phawb arall yn dy dŷ." Daeth y swyddog i gredu, a teimlo'n hapus iawn.



Ar ôl cael eu gollwng yn rhydd y diwrnod wedyn, teithiodd Paul a Silas i lawer o ddinasoedd eraill, yn dweud wrth bobl am Iesu. Daeth rhai pobl i gredu, roedd pobl eraill am eu brifo. Ond roedd Duw gyda'i weithwyr.

Un diwrnod, pregethodd Paul am amser hir iawn. Roedd dyn ifanc yn eistedd wrth ffenestr agored a dyma fe'n syrthio i gysgu. Beth ddigwyddodd, meddyliwch chi?

Roedd pawb yn gwybod fod y dyn ifanc wedi marw. Ond aeth Paul i lawr grisiau a thaflu ei freichiau o'i gwmpas, a dweud, "Mae'n fyw."


Roedd pawb yn
hapus wrth
iddyn nhw fynd
yn ôl i'r tŷ.

Cafodd Paul a Silas lawer o anturiaethau wrth iddyn nhw deithio ar draws Ewrop. Digwyddodd un o anturiaethau



mwyaf Paul pan oedd e'n ...

... teithio ar long – nid llong deithio mawr wedi ei wneud o ddur, ond cwch hwylio oedd yn cael ei chwythu i

bob cyfeiriad mewn storm.



Roedd Paul ar y llong achos ei fod e wedi cael ei arestio eto. Roedd yn rhaid iddo nawr ymddangos o flaen yr ymerawdwr yn Rhufain, prif ddinas y byd.



Daeth gwyntoedd cryf i arafu'r llong – roedd tywydd stormus yn dod. Roedd Paul a'r carcharorion eraill yn mynd i gael taith arw.

"Gyfeillion, trychineb fydd pendraw'r fordaith yma os byddwn ni'n cario ymlaen," rhybuddiodd Paul. Ond doedd y capten ddim am wrando ar Paul.

Pan gyrhaeddodd y storm,
dyma nhw'n rhoi rhaffau
o dan gorff y llong
rhag iddi ddryllio.
Petai'r llong
yn dryllio,
byddai
pawb yn
boddi.



Roedd y llong wedi'i churo cymaint gan gan y storm nes i'r capten orchymyn y dynion i daflu'r cargo i'r môr. Ar y trydydd dydd, dyma nhw'n taflu tacl y llong i'r dŵr yn y gobaith y byddai hynny'n helpu.

Daeth angel at Paul yn ystod y nos, a dweud wrtho bod popeth yn mynd i fod yn iawn. Dechreuodd y dynion obeithio pan ddywedodd Paul, "Codwch eich ...

... calonnau, ddynion, rwy'n credu bod Duw yn mynd i gadw at ei air. Ond mae'r llong yn mynd i gael ei dryllio ar greigiau rhyw ynys neu'i gilydd."

Ychydig ddyddiau yn ddiweddarach, chwythodd y gwynt y llong i gyfeiriad ynys Malta. Cafodd ei hyrddio yn erbyn creigiau, a dryllio.

Rhoddodd y capten orchymyn i'r rhai oedd yn gallu nofio i neidio i'r dŵr a cheisio cyrraedd y lan. Fe wnaeth pawb arall geisio dal gafael mewn planciau neu ddarnau eraill o'r llong.

Ar ynys Malta, dangosodd Duw ei allu mawr. Tra roedden nhw'n casglu brigau mân ar gyfer cynnau tân, dyma neidr wenwynig yn brathu Paul.

Roedd pawb yn meddwl y byddai'n marw. Ond chafodd e ddim niwed o gwbl. Yna dechreuodd pobl yr ynys drin Paul fel duw.

Daeth llawer o bobl sâl ato, ac wedi i Paul weddïo drostyn nhw, fe wnaeth Duw eu gwella.



O'r diwedd, daeth Paul i Rufain. Bu'n rhaid iddo fe ddisgwyl am ddwy flynedd cyn i'w achos ddod i'r llys. Yn ystod yr amser hwnnw, arhosodd Paul mewn tŷ ar rent, ac roedd yn rhoi croeso i bawb oedd yn dod i'w weld.

Wyddoch chi am beth oedd Paul yn siarad gyda'i ymwelwyr? Duw yn teyrnasu! Yr Arglwydd Iesu Grist!

Roedd Paul yn gweithio i Dduw yn Rhufain, fel ym mhob man arall ar ei deithiau.

Yn ystod ei amser yn Rhufain, ysgrifennodd Paul, "Dw i wedi ymladd yn galed, dw i wedi rhedeg y ras i'r pen, a dw i wedi aros yn ffyddlon."



Dyw'r Beibl ddim yn dweud beth ddigwyddodd i Paul, ond mae ffynonellau eraill yn dweud bod yr Ymerawdwr Nero wedi gorchymyn torri pen Paul.



Teithiau Rhyfeddol Paul

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Actau 16, 27, 28

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Y Diwedd

Mae'r stori hon o'r Beibl yn dysgu ni am ein Duw rhyfeddol. Fe wnaeth ein creu ni, ac mae eisiau i ni ei adnabod.

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Cosb pechod ydy marwolaeth, ond mae Duw yn dy garu di gymaint nes ei fod wedi anfon ei unig Fab, Iesu, i farw ar Groes, a chymryd y gosb am dy bechod di. Yna daeth Iesu'n ôl yn fyw a mynd adref i'r Nefoedd! Os wyt ti'n credu yn Iesu ac yn gofyn iddo faddau dy bechodau, mae'n barod i wneud hynny! Bydd yn dod i fyw ynot ti nawr, ac fe gei di fyw gydag E am byth.

Os wyt ti'n credu bod hyn yn wir, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Iesu, rwy'n credu i ti ddod yn ddyn i farw dros fy mhechodau, a dy fod ti'n fyw eto. Os gweli'n dda, tyrd i mewn i'm bywyd. Maddau fy mhechodau i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna un diwrnod bod hefo ti am byth. Helpa fi i fod yn ufudd i ti, a byw fel plentyn i ti. Amen.

Darllena'r Beibl, a siarad gyda Duw bob diwrnod! Ioan 3:16